Senedd Cymru

**Pwyllgor y Llywydd**

# Y Comisiwn Etholiadol

# Amcangyfrif Atodol

# 2023-24

Mawrth 2024

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cais am amrywiad i gyllideb y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn am £53,900 ychwanegol i gwrdd â phwysau sy'n ymwneud â dyfarniadau cyflog ac ymosodiadau seibr.

# 1. Casgliadau ac argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Comisiwn fod yr holl gostau uniongyrchol a gynhwysir yn yr Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â gwaith y Comisiwn ar etholiadau datganoledig Cymru ac y dylid eu priodoli i Gronfa Gyfuno Cymru. ....11

**Casgliad 2.** Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24 yn gyson â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarbodus, yn effeithlon acyn effeithiol. ....11

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus ynghylch cyfathrebu gan y Comisiwn mewn perthynas â chyllid ychwanegol, yn ogystal â materion mwy cyfrinachol fel seiberddiogelwch. ....11

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn adeiladu ar ei gynllun cyfathrebu presennol dros y flwyddyn nesaf ac yn cyfathrebu unrhyw newidiadau posibl i'r gyllideb mewn modd amserol. ....11

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn cadw mewn cysylltiad yn benodol â'r Pwyllgor mewn perthynas â staffio'r tîm cyllid....11

# 2. Amcangyfrif Atodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24

## Y cefndir

**1.** Ysgrifennodd y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) at Bwyllgor y Llywydd (y Pwyllgor) i ofyn am £53,900 ychwanegol gan y Senedd drwy broses y Gyllideb Atodol. Gwnaed hyn yr un pryd ag y cyflwynodd ei Amcangyfrif ar gyfer 2024-25, ar 28 Medi 2023.

**2.** Cafodd y cais hwn ei gynnwys yng nghyllideb atodol Llywodraeth Cymru, a osodwyd ar 20 Chwefror 2024.[1]

**3.** Mae'r Amcangyfrif Atodol yn gofyn am £53,900 ychwanegol (sydd gyfystyr â chynnydd o 3.8% ar ei Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2023-24) i ateb y pwysau sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a diogelwch seibr.

**4.** Mae'r amcangyfrif diwygiedig ar gyfer y Comisiwn Etholiadol i'w gael yn atodiad A i'r adroddiad hwn.

**5.** Yn ystod sesiwn flaenorol gyda'r Comisiwn ym mis Tachwedd 2022, gofynnodd y Pwyllgor a oedd posibilrwydd y byddai angen i'r Comisiwn gyflwyno Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24 o ystyried pwysau chwyddiant. Dywedodd Prif Weithredwr y Comisiwn ar y pryd, Shaun McNally:

> *At this stage, I wouldn't envisage having to submit another supplementary estimate, but should that change, my commitment is to keep this committee apprised of that fact. But I am satisfied that rigour has been applied and that that gives us, through effective control and stewardship of the budget— . I don't anticipate asking for more.*[2]

**6.** Trafododd y Pwyllgor y cais hwn yn wreiddiol ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2022, lle y trafodwyd yr Amcangyfrif ar gyfer 2024-25 hefyd. Fodd bynnag,

---

[1] Cynnig y Gyllideb Atodol 2023-24
[2] Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 111

teimlai'r Pwyllgor nad oedd digon o amser i ystyried y manylion angenrheidiol ar y cais yn y cyfarfod hwn, ac felly trefnodd gyfarfod dilynol ar 22 Ionawr 2024. Roedd y cynrychiolwyr a ganlyn o'r Comisiwn yn bresennol yn y cyfarfod:

- Yr Athro y Fonesig Elan Closs Stephens CBE (Comisiynydd Etholiadol Cymru)
- Rob Vincent (Prif Weithredwr Dros Dro)
- David Moran (Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu)
- Rhydian Thomas (Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru)

**7.** Ymgynghorodd y Pwyllgor â Gweinidogion Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 20.34A(ii)(a) ar 3 Hydref, ar yr un pryd ag yr oedd yn ymgynghori â hwy ar Amcangyfrif 2024-25. Cafwyd cyngor y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar 19 Hydref 2023

**8.** Yn ei ymateb i'r Pwyllgor ynghylch Amcangyfrif Atodol y Comisiwn ar gyfer 2023-24, noda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS:

> *Gallaf gadarnhau bod y gweithgareddau a ddisgrifiwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif atodol ar gyfer 2023-24 yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a'u bod yn fforddiadwy o fewn y cronfeydd a drosglwyddwyd o Drysorlys Ei Fawrhydi.*[3]

**9.** Fodd bynnag, mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn dweud bod "y sicrwydd blaenorol a roddwyd gan y Comisiwn fod rhagdybiaethau cyflog realistig eisoes wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif o sylwedd ar gyfer 2023-24".

**10.** Mae Amcangyfrif Atodol 2023-24 yn chwilio am gyllid ychwanegol i fodloni dau fater sy'n pwyso ar y Comisiwn yn ymwneud â dyfarniadau cyflog ac ymosodiad seiber.

[3] Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 24 Hydref 2023.

## Dyfarniadau cyflog

**11.** Yn ei Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23, gofynnodd y Comisiwn am £7,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer dyfarniadau cyflog.

**12.** Yn yr Amcangyfrif Atodol, nodir bod y dyfarniadau cyflog ar gyfer 2023-24 yn uwch na'r lefel a ddisgwyliwyd pan gyflwynodd y Comisiwn ei amcangyfrif gwreiddiol. Dywed y Comisiwn ei fod wedi alinio ei setliad cyflog ag un y Gwasanaeth Sifil ehangach a ganiataodd dyfarniadau tâl cyfartalog hyd at 4.5% gyda hyblygrwydd pellach i wneud dyfarniadau hyd at 0.5% yn ychwanegol, wedi'u targedu at fandiau cyflog is.

**13.** Gwnaeth y Comisiwn hefyd alinio ei hun â'r Canllawiau Cylch Cyflog wrth wneud taliad anghyfunol sefydlog o £1,500 fesul cyflogai llawn amser ar gyfer y rhai mewn swyddi dirprwyedig ar gyfer 2023-24, yn amodol ar gymhwysedd.

**14.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiwn ar 29 Tachwedd 2023 i ofyn am "sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra a phriodoldeb gwneud y taliad hwn cyn i'r Senedd gytuno ar gyllideb atodol."[4]. Ysgrifennodd y Comisiwn yn ôl ar 12 Rhagfyr 2023[5] yn egluro'r prosesau mewnol a arweiniodd at y penderfyniad i wneud y taliad, a'u bod yn ystyried ei bod yn fwy dymunol gofyn am amcangyfrif atodol ar gyfer y taliad yn hytrach na thorri a chwtogi ar swyddogaethau craidd megis cynnal yr arolwg tracio blynyddol, llenwi swyddi gwag a theithio i ymgysylltu ag awdurdodau lleol.

**15.** Holodd y Pwyllgor y Comisiwn ynghylch yr hyn y byddai angen ei dorri pe na bai'n cytuno i'r cais am amcangyfrif atodol. Atebodd Rob Vincent:

> *…if a supplementary estimate is not approved, then we will have to cut quite a bit of our support to, in particular, communications with the public and with returning officers, effectively, and electoral administrations.*[6]

**16.** Mae'r Comisiwn yn nodi ei fod wedi cyllidebu'n wreiddiol ar gyfer setliad cyflog o 4% (£553,000), ond effaith gyfun yr uchod yw cost gyffredinol

[4] Llythyr gan y Pwyllgor at y Comisiwn Etholiadol, 29 Tachwedd 2023.
[5] Llythyr gan y Comisiwn Etholiadol at y Pwyllgor, 12 Rhagfyr 2023.
[6] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 17

ychwanegol o £1,014,000. Yr effaith ar y cais am gyllideb atodol ar gyfer y Senedd yw tua 8.3% o'r swm hwn, sef £38,500.

**17.** Yn ei lythyr at y Pwyllgor yn sôn am Amcangyfrif Atodol y Comisiwn ar gyfer 2023-24, mae'r Comisiwn yn dweud:

> *Mae'r datganiadau cyfredol gan Lywodraeth y DU yn nodi'n glir fod yn rhaid rheoli dyfarniadau cyflog o fewn y setliadau presennol ar gyfer Adrannau Whitehall ac ni fydd unrhyw gyllid canlyniadol ar gael i Gymru.* [7]

**18.** Holodd y Pwyllgor pam na hysbysodd y Comisiwn y Pwyllgor o'i fwriad i gyflwyno Amcangyfrif Atodol a pham nad oedd wedi cyfathrebu â'r Pwyllgor ynghylch ei fwriad i wneud taliad o £1,500 i'w staff, a chytunodd Rob Vincent y dylent fod wedi gwneud hynny, ac ymddiheurodd wrth edrych yn ôl.

**19.** Gofynnodd y Pwyllgor pa ymdrechion a wnaeth y Comisiwn i nodi arbedion effeithlonrwydd i dalu costau ychwanegol yr aethpwyd iddynt yn 2023-24 o'i gyllideb bresennol. Esboniodd Rob Vincent fod y Comisiwn wedi chwilio'n daer am arbedion mewnol[8], a'i fod wedi ystyried cyngor Trysorlys y DU a amlygwyd gan y Cwnsler Cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn ei hun yn fach ac nid oedd ganddo ddigon o arian wrth gefn i amsugno'r dyfarniad cyflog ychwanegol. O ran yr arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd, dywedodd Rob Vincent:

> *The actions we did take— and there were some savings— were delaying the filling of posts; we also tightened the negotiation of some of our external contracts in order to make savings.*[9]

Sicrhaodd y Pwyllgor hefyd fod y Comisiwn wedi buddsoddi mewn systemau gweithredol craidd gan gynnwys eu tîm cyllid a'u system gyfrifon. Eglurodd fod y buddsoddiad cynyddol hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod prosesau megis cyllidebu yn fwy cadarn yn y dyfodol.

---

[7] Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 24 Hydref 2023.
[8] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 15
[9] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 51

## Ymosodiadau seiber

**20.** Yn Amcangyfrif Atodol 2023-24 nodir fod y Comisiwn wedi cael ei dargedu gan ymosodiad seibr. Daeth hyn i'r amlwg ym mis Hydref 2022 a chafodd pawb wybod amdano ym mis Awst 2023.

**21.** Yn ei lythyr a anfonwyd i'r Pwyllgor ar 8 Awst 2023, ymhelaethodd y Comisiwn ar yr ymosodiad seiber gan ddweud:

> *Yn ystod yr ymosodiad seiber, roedd gweithredwyr gelyniaethus yn ein systemau ac roedd ganddynt fynediad i weinyddion y Comisiwn a oedd yn dal ein e-byst, ein systemau rheoli, a chopïau o gofrestrau etholiadol. Credwn y cyrchwyd ein system e-bost a'r cofrestrau etholiadol, ond nid ydym yn gwybod os cafodd unrhyw ddata ei gopïo neu ei lawrlwytho.*[10]

**22.** Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd wedi cael gwybod am yr ymosodiad seiber ar y pryd. Eglurodd David Moran:

> *…there was an incident discovered, and because of the nature and sensitivity and because of the very complicated and sophisticated approach used, there was a considerable amount of expectation on us not to say or speak openly of what had happened for some months…I think, if the question is, 'Could we have, in confidence, shared with one or more people on the committee?', I think it's a distinct possibility that it would've perhaps been appropriate, but I think we were also working to other parties who had an interest in making sure that this didn't enter the public domain at the time.*[11]

**23.** Holodd y Pwyllgor hefyd ynghylch yr amserlenni, gan ofyn pa fuddsoddiad oedd ei angen yn 2022-23 ac o ble y daeth yr arian ar gyfer y buddsoddiad hwn, gan ystyried y cyfrinachedd ynghylch yr ymosodiad. Eglurodd David Moran:

[10] Y Comisiwn Etholiadol, llythyr at y Pwyllgor, 8 Awst 2023
[11] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 55

> *I think there may have been specific changes over those last few months of 2022-23, but they were, in a way, a progression…many of those people on the periphery, including those making forecasts and those managing finances, were not privy to the fact that these contracts were going through, unless it was on a need-to-know basis, because of the sensitivity of the fact that we have a major investigation going on, not just within the organisation but outside the organisation, to identify what techniques were used and by whom.*[12]

**24.** Yn ei Amcangyfrif, mae'r Comisiwn yn sôn am rai "costau ychwanegol, sy'n gysylltiedig â rheoli'r systemau i wella systemau trosglwyddo diogelwch i'r cwmwl, yn y ceisiadau cyllideb ar gyfer 2023/24, sef £312,000. Gofynnwyd am y swm hwn drwy'r prif gais gan Bwyllgor y Llefarydd yn Senedd y DU".

**25.** Aeth ymlaen i nodi:

> *Fodd bynnag, nid hwn oedd yr unig gost a oedd wedi'i briodoli'n uniongyrchol i'r cynnydd yn ein seiberddiogelwch, ac yn 2023/24 byddwn hefyd yn mynd i gostau rhedeg o £308,000 pellach. O'r swm hwn, rydym yn ceisio cyfraniad o 5%, sef £15,400, gan y Senedd.*

**26.** Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd unigolion gelyniaethus yn gallu trechu eu mesurau diogelwch, ac esboniodd y Comisiwn, er bod ganddynt strategaeth ar waith i wella eu seiberddiogelwch, nad oeddent wedi ei rhoi ar waith yn ddigon cyflym i atal yr ymosodiad rhag digwydd.

**27.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd pam nad oedd y Comisiwn yn gwybod pa ddata a gafodd ei gopïo neu ei lawrlwytho ac a oedd wedi cael gwybod ers y llythyr dyddiedig 8 Awst 2023. Ymatebodd Rob Vincent eu bod yn gwybod erbyn hyn ac nad oedd unrhyw effaith ar unrhyw un ar y cofrestrau etholiadol yng Nghymru nac yn unman arall.[13]

---

[12] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 60
[13] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 62

**28.** Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y tanfuddsoddiad hanesyddol mewn seiberddiogelwch, a gofynnodd sut y byddai hyn yn effeithio ar y cyllid a geisir yn y maes hwn gan y Senedd yn y dyfodol gan gynnwys unrhyw gyllidebau atodol pellach. Atebodd Rob Vincent:

> *…we are confident that we've put into the budget provision for next year all the costs of the responses to the advice from the cyber security committee. I can give you no guarantee that we won't have further cyber challenges that we are not anticipating and have not been advised over by the cyber security committee. So, you can never, I'm afraid, give a total guarantee that new challenges will not arise that require further interventions, but in terms of interventions that come from this past quite significant attack, yes, we have made provision for those in the main budget.*[14]

## Sylwadau cyffredinol

**29.** I grynhoi, holodd y Pwyllgor y Comisiwn ar iechyd cyffredinol ei brosesau a'i systemau mewnol, gan ystyried bod ymrwymiadau cyflog a thalu wedi'u gwneud heb sicrwydd o'r adnoddau perthnasol i'w gwneud, a bod yn rhaid gwella'r systemau cyfrifyddu fel y gwnaeth seiberddiogelwch. Atebodd Rob Vincent:

> *It's clear that we did have significant weaknesses in some of our central teams, our central systems— Elan's already said as much. That was the case. Inferred is a question as to whether we are now back on top of that and whether we're in a more secure position. My view is 90 per cent yes….So, I think we should go into 2024-25 in a secure position.*[15]

**30.** Amlinellodd Rob Vincent a David Moran hefyd fod recriwtio i dimau parhaol ym maes cyllid a chaffael yn dal i fynd rhagddo ond y dylai hynny gael ei gwblhau erbyn mis Medi.

[14] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 76
[15] Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024, paragraff 81

## Barn y Pwyllgor

**31.** Mae’r Pwyllgor yn fodlon ar gais y Comisiwn am adnoddau ychwanegol.

**32.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymateb gan Weinidogion Cymru fod y swm y gofynnwyd amdano yn “fforddiadwy o fewn y cyllid a drosglwyddwyd o Drysorlys Ei Fawrhydi”.

**33.** Er bod y Pwyllgor yn nodi’r anawsterau ynghylch y trafodaethau cyflog yn 2023-24, gan gynnwys y pwysau chwyddiant a chadw staff, mae’n bryderus nad oedd y Comisiwn wedi meddwl dweud ei fod wedi penderfynu gwneud y taliad. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Comisiwn i sicrhau bod gwell cyfathrebu yn y dyfodol, fel y dangosir yn y cynllun cyfathrebu a amlinellwyd yn ei lythyr diweddar.

**34.** Mae’r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn wedi ceisio ac wedi llwyddo i ddod o hyd i rai arbedion mewnol cyn cyflwyno ei gais am Amcangyfrif Atodol, ac yn nodi manylion yr arbedion hyn. Mae’r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y Comisiwn wedi nodi’r toriadau y byddai’n rhaid iddo eu gwneud pe na bai’r Amcangyfrif Atodol yn cael ei gytuno.

**35.** Er bod y Pwyllgor yn nodi natur gyfrinachol y materion sy’n ymwneud â'r ymosodiad seiber, hoffai dynnu sylw at y ffaith, lle nad yw'n bosibl rhoi diweddariad ffurfiol i'r Pwyllgor ar faterion yn y dyfodol, y gellir cynnal trafodaethau cyfrinachol gyda’r Cadeirydd.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Comisiwn fod yr holl gostau uniongyrchol a gynhwysir yn yr Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â gwaith y Comisiwn ar etholiadau datganoledig Cymru ac y dylid eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru.

**Casgliad 2.** Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24 yn gyson â’r ffordd y mae’r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Casgliad 3.** Mae’r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus ynghylch cyfathrebu gan y Comisiwn mewn perthynas â chyllid ychwanegol, yn ogystal â materion mwy cyfrinachol fel seiberddiogelwch.

**Argymhelliad 1.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn adeiladu ar ei gynllun cyfathrebu presennol dros y flwyddyn nesaf ac yn cyfathrebu unrhyw newidiadau posibl i’r gyllideb mewn modd amserol.

**Argymhelliad 2.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn cadw mewn cysylltiad yn benodol â’r Pwyllgor mewn perthynas â staffio’r tîm cyllid.

Atodiad A

Y Comisiwn Etholiadol The Electoral Commission

David Rees, AS

Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd
CF99 1SN

28 Medi 2023

Annwyl Gadeirydd

Parthed: Amcangyfrif Atodol 2023/24

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch cynghori am sawl pwysau ariannol sydd wedi codi yn 2023/24, ac felly i ofyn am **£53,900** ychwanegol gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn hon drwy'r broses amcangyfrif atodol i fodloni'r ddau bwysau canlynol.

Yn gyntaf, fel y byddwch yn gwybod, cafodd y Comisiwn Etholiadol ei dargedu gan weithredwyr gelyniaethus mewn ymosodiad seiber cymhleth. Cafodd hyn ei nodi ym mis Hydref 2022 a'i gyhoeddi i'r cyhoedd ym mis Awst 2023. Nodwyd rhai costau ychwanegol, sy'n gysylltiedig â rheoli'r systemau i wella systemau trosglwyddo diogelwch i'r cwmwl, yn y ceisiadau cyllideb ar gyfer

2023/24, sef £312,000. Gofynnwyd am y swm hwn drwy'r prif gais gan Bwyllgor

y Llefarydd yn Senedd y DU. Fodd bynnag, nid hwn oedd yr unig gost a oedd wedi'i briodoli'n uniongyrchol i'r cynnydd yn ein seiberdiogelwch, ac yn 2023/24

byddwn hefyd yn mynd i gostau rhedeg o £308,000 pellach. O'r swm hwn, rydym yn ceisio cyfraniad o 5%, sef **£15,400**, gan y Senedd. Bydd y gweddill yn cynnwys 8% gan Senedd yr Alban ac 87% gan Senedd y DU.

Nid y Comisiwn oedd yr unig sefydliad seilwaith cenedlaethol a dargedwyd, gan ein bod yn ymwybodol o dargedau mor amrywiol â'r Post Brenhinol, y swyddfa cofnodion troseddol ACRO, a'r Heddlu Metropolitanaidd. Mae hyn yn tynnu sylw at fregusrwydd cyrff sector cyhoeddus i ymosodwyr cymhellol a sensitifrwydd eithafol y data sydd ganddynt. Felly, mae'n rhaid i ni dderbyn camau yn y dyfodol i leihau'r risgiau o feddalwedd wystlo, ymosodiadau gan drydydd parti a theilwra cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i dorri systemau critigol.

Yn ail, mae’r dyfarniadau tâl ar gyfer 202/24 wedi bod yn uwch na’r lefel a ddisgwyliwyd pan wnaethom gyflwyno ein hamcangyfrif gwreiddiol. Mae'r Comisiwn wedi alinio ei setliad cyflog ag un y Gwasanaeth Sifil ehangach a ganiataodd dyfarniadau tâl cyfartalog hyd at 4.5% gyda hyblygrwydd pellach i wneud dyfarniadau hyd at 0.5% ychwanegol, wedi'u targedu at fandiau cyflog is. Yn ogystal â hyn, ar gyfer 2023/24, gwnaethom hefyd alinio ein hunain â'r Canllawiau Cylch Cyflog wrth wneud taliad anghyfunol sefydlog o £1,500 fesul cyflogai llawn amser ar gyfer y rheiny mewn swyddi dirprwyedig, yn amodol ar gymhwysedd. Yn wreiddiol roedd y Comisiwn wedi cyllidebu ar gyfer setliad cyflog o 4% (£553,000), ond effaith gyfun yr uchod yw cost gyffredinol ychwanegol o £1,014,000. Yr effaith ar y gais am gyllideb atodol ar gyfer y Senedd yw tua 8.3% o’r swm hwn, sef **£38,500**.

Sylwch nad oedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn cymryd i ystyriaeth symiau wrth gefn pellach y gellid eu defnyddio i leihau pwysau'r newidiadau o ganlyniad i’r ymosodiad seiber neu'r dyfarniad cyflog, ac mae mentrau eraill i leihau costau yn cael eu defnyddio i wrthbwyso pwysau eraill gan gynnwys newidiadau i wella capasiti.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a’r Pwyllgor am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithgareddau’r Comisiwn yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir,



Shaun McNally CBE

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Etholiadol